**Protocol Arholi Ar-lein**

Mae Athrofeydd yn gyfrifol am osod y trefniadau ar gyfer Arholiadau Ar-lein a goruchwylio (os oes angen). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod addasiadau rhesymol cymeradwy yn cael eu gwneud ar gyfer myfyrwyr.

**Dechrau arholiadau ar-lein:**

- Bydd gan arholiadau ar-lein amser cychwyn a/neu hyd penodol, a fydd yn cael eu cyfleu'n glir i fyfyrwyr. Gall Disgyblaeth Academaidd ddarparu amser cychwyn hwyrach i fyfyrwyr mewn parth amser gwahanol neu mewn amgylchiadau eithriadol, lle bo amgylchiadau penodol, unigol yn ei wneud yn ofynnol.
- Bydd myfyrwyr yn cael gwybod sut mae'n rhaid iddynt gael mynediad i'r arholiad, gall hyn fod trwy lawrlwytho cwestiynau'n electronig a gyrchir trwy Rith-amgylchedd Dysgu (RhAD) y brifysgol, gwefan neu borth penodol, neu drwy system oruchwylio arbenigol.
- Rhoddir cyfarwyddiadau llawn i fyfyrwyr ar sut i ddefnyddio'r system benodol.

**Cwblhau'r arholiad ar-lein:**

- Bydd y papur arholiad, neu'r system ddosbarthu ar-lein yn nodi'r amser sydd ar gael i'w gwblhau.
- Darperir cyfarwyddiadau clir ar sut i orffen a chyflwyno atebion.
- Cyfrifoldeb y myfyriwr yw cyflwyno ei atebion yn y ffordd gywir o fewn y terfyn amser. Bydd myfyrwyr nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau ac yn cyflwyno gwaith y tu hwnt i'r terfyn amser yn cael eu hystyried fel cyflwyniadau hwyr.

**Problemau yn ystod yr arholiad ar-lein:**

- Os na all myfyriwr ddechrau arholiad ar-lein, dylai lenwi ffurflen amgylchiadau esgusodol.
- Os byddant yn dechrau'r arholiad ond, oherwydd materion sy'n effeithio arnynt hwy yn unig, yn methu â chwblhau'r arholiad, dylent hysbysu eu disgyblaeth a chyflwyno ffurflen amgylchiadau esgusodol.
- Rhoddir cyfarwyddiadau i fyfyrwyr ar yr hyn y dylent ei wneud os bydd y rhaglen gyfrifiadurol benodol neu'r feddalwedd a ddefnyddir i gyflwyno neu oruchwylio'r asesiad yn methu yn ystod y broses arholi neu gyflwyno.
- Lle bo'n briodol, dylid gallu cysylltu ag aelod o staff a enwir neu fewnflwch penodedig rhag ofn y bydd anhawster wrth gael mynediad i'r arholiad.

**Cyfathrebu yn ystod arholiad ar-lein:**

- Ni ddylai myfyrwyr gyfathrebu ag eraill yn ystod arholiad ar-lein.
- Rhaid i ymgeiswyr weithio'n annibynnol ar gyfer arholiadau ar-lein.
- Ni chaniateir rhannu atebion a gweithio gydag eraill i gwblhau'r asesiad.

Bydd ymddygiad o'r fath yn cael ei ystyried yn gydgynllwynio ac yn cael ei drin fel yr amlinellir yn y Polisi Camymddwyn Academaidd.

**Testunau a ganiateir yn ystod arholiad ar-lein:**

- Rhoddir gwybod i fyfyrwyr pa adnoddau, os o gwbl, y caniateir iddynt gael mynediad iddynt yn ystod arholiad ar-lein. Gweler hefyd y Polisi ar Ddefnyddio Geiriaduron a Chyfrifianellau mewn Arholiadau.

- Gellir goruchwylio arholiadau ar-lein (hy eu harolygu o bell) i gefnogi sicrhau ansawdd a chywirdeb academaidd yr arholiad.
- Rhoddir cyfarwyddiadau llawn i fyfyrwyr a chyfle i ymarfer defnyddio'r system pan fydd goruchwyliaeth o'r fath yn cael ei chynllunio.

**Atebion arholiad:**

- Cyfrifoldeb y myfyriwr yw sicrhau bod yr holl atebion yn cael eu fformatio'n briodol a'u marcio â gwybodaeth adnabod, fel y gofynnir amdani yn y cyfarwyddiadau, cyn eu cyflwyno.

**Troi Arholiadau Wyneb i Wyneb yn Arholiadau Ar-lein**

- Lle bu'n rhaid troi arholiad wyneb i wyneb yn arholiad ar-lein, mae'r Brifysgol yn argymell nad yw'r amserlen yn cael ei haddasu gan ddim mwy na 100%.